CHWARAEON A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Adolygiad Sector Cam 2

Medi 2021

CYNNWYS

Pennod 1: Cyflwyniad a chrynodeb gweithredol 2

Ein hymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad 5

Pennod 2: Trosolwg o'r sector 7

Pennod 3: Methodoleg yr Adolygiad 10

Cwmpas a threfniadaeth 10

Ymgysylltu â rhanddeiliaid 10

Holiadur ar-lein 11

Ystyriaethau methodolegol 12

Y canfyddiadau 13

Pennod 4: Yr ystod gyffredinol o gymwysterau 13

Yr ystod o gymwysterau 13

Llwybrau dilyniant 16

Pennod 5: Cymwysterau cyfrwng Cymraeg 19

Argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg 19

Asesu trwy gyfrwng y Gymraeg 22

Argaeledd adnoddau cyfrwng Cymraeg 23

Pennod 6: Cynnwys cymwysterau 24

Pennod 7: Asesu 26

Pennod 8: Camau gweithredu 29

Casgliad 31

Pennod 1: Cyflwyniad a chrynodeb gweithredol

Yn y bennod hon, rydym yn cyflwyno'r Adolygiad ac yn crynhoi'r canfyddiadau.

1. Croeso i adroddiad ein hadolygiad sector cam 2 o gymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus. Dyma'r cyntaf mewn cyfres o adolygiadau sector cam 2 i'w gynnal gan Cymwysterau Cymru, rheoleiddiwr cymwysterau, heblaw graddau, yng Nghymru. Mae'r adolygiadau sector cam 2 yn datblygu ar y themâu trawsbynciol a nodwyd o'n hadolygiadau sector gwreiddiol ond mae ganddynt fwy o ffocws ac maent yn fyrrach o ran hyd. Mewn adolygiadau sector cam 2, rydym yn ystyried a yw'r:

   - ystod o gymwysterau sydd ar gael yn y sector yn briodol i ddiwallu anghenion dysgwyr, darparwyr dysgu a chyflogwyr; ac
   - a yw argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn ddigonol i ddiwallu anghenion dysgwyr, darparwyr dysgu a chyflogwyr.

2. Rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar gymwysterau ar gyfer dysgwyr dros 16 oed ar raglenni a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr dros 16 oed mewn colegau addysg bellach, ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Fodd bynnag, os ydym yn darganfod problemau gyda chymwysterau perthnasol eraill, rydym hefyd yn ystyried y rheini.

3. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

   - Trosolwg o'r sector - rydym yn cyflwyno ein hadolygiad cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus a gynigir yng Nghymru.
   - Methodoleg - rydym yn amlinellu sut y gwnaethom gynnal yr Adolygiad.
   - Canfyddiadau - rydym yn amlinellu canfyddiadau'r Adolygiad mewn perthynas â:
     - yr ystod gyffredinol o gymwysterau;
     - argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg;
     - cynnwys y cymwysterau a pha mor gyfredol y maent; ac
     - asesu cymwysterau.
   - Camau gweithredu - rydym yn amlinellu'r camau yr ydym wedi'u cymryd, ac yn bwriadu eu cymryd, i ymdrin â'r materion a nodwyd gan yr Adolygiad.

4. Er mwyn bodloni nodau'r Adolygiad, gwnaethom gynnal cyfweliadau â rhanddeiliaid a holiadur dysgwyr ar-lein. Gwnaethom gynnal 58 cyfweliad â chyflogwyr, darparwyr dysgu a rhanddeiliaid ehangach. Gwnaethom hefyd siarad â chyrff dyfarnu a chasglu barn dros 380 o ddysgwyr drwy arolwg ar-lein a chawsom dros 380 o ymatebion.

5. Mewn perthynas â'r ystod gyffredinol o gymwysterau mewn chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus, nododd yr Adolygiad:

   - roedd mwyafrif y darparwyr dysgu a gafodd eu cyfweld o'r farn bod yr ystod o gymwysterau ar gyfer chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus yn ddigonol i ddiwallu anghenion eu dysgwyr a'u canolfan, ond mynegodd rhai darparwyr dysgu awydd am fwy o ddewis o gymwysterau gwasanaethau cyhoeddus a gweithgareddau awyr agored.
   - credai rhanddeiliaid fod cymwysterau addas ar gael ar gyfer chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus sy'n paratoi dysgwyr yn effeithiol i symud ymlaen i astudiaeth bellach, addysg uwch, prentisiaethau a/neu gyflogaeth.
   - byddai sawl ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth sy'n cynnig cymhwyster Agored Cymru Lefel 2 Dysgu yn yr Awyr Agored yn croesawu llwybr dilyniant i gymhwyster lefel 3 perthnasol.
   - mae rhai darparwyr dysgu yn seiliedig ar waith yn dymuno cael mwy o ddewis o gymwysterau ar fframwaith prentisiaeth Rhaglenni Awyr Agored Lefel 3.
   - mae galw gan gyflogwyr, yn ôl darparwyr dysgu yn seiliedig ar waith y gwnaethon ni eu cyfweld, am fframweithiau prentisiaeth ymarfer corff a ffitrwydd lefel uwch.
   - nododd cyflogwyr gymwysterau arbenigol fel cryfder a chyflyru, ioga a pilates fel cymwysterau ychwanegol yr hoffent i'w prentisiaid eu cwblhau, ond nid yw'r cymwysterau hyn yn rhan o fframweithiau prentisiaeth ymarfer corff a ffitrwydd.

6. Mewn perthynas ag argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg mewn chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus, nododd yr Adolygiad:

   - cynigiwyd cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ystod o leoliadau dysgu. Nododd sawl ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg lefel uchel o alw am gymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus a mynegwyd pryder y gallai darpariaeth o'r fath gael ei thynnu'n ôl. Mewn colegau addysg bellach a gyda darparwyr dysgu yn seiliedig ar waith, roedd lefel y galw yn fwy cymysg.
   - nid oedd cymwysterau 1st4sport oedd ar gael ar fframweithiau prentisiaeth ymarfer corff a ffitrwydd a rhaglenni awyr agored ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd yn rhaid i ganolfannau a oedd yn cynnig y cymwysterau hyn yn y Gymraeg gyfieithu manylebau a deunyddiau asesu.
   - nid oedd 1st4sport yn cynnal y broses sicrhau ansawdd trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer canolfannau cyfrwng Cymraeg.
   - sicrhawyd bod cymwysterau newydd Pearson BTEC Lefel 3 Chwaraeon a Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol Dyfarniad Cenedlaethol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.
   - mae galw cynyddol gan ddysgwyr am gymwysterau gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg a dywedodd sawl coleg addysg bellach wrthym eu bod yn bwriadu datblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y maes hwn.
   - nid oedd canolfannau bob amser yn gwbl ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, awgrymodd sawl ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg nad oedd gwasanaeth gwirio aseiniadau Pearson ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, ond wrth ymchwilio ymhellach fe wnaethom ddarganfod ei fod ar gael ar gyfer cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus.
   - roedd sawl enghraifft o arfer da lle roedd darparwyr dysgu yn cydweithredu â'i gilydd i ddatblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus.

7. Mewn perthynas â chynnwys y cymwysterau a pha mor gyfredol y maent, nododd yr Adolygiad:

- roedd darparwyr dysgu yn ystyried bod cynnwys cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus yn gyfredol.
- roedd ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth a cholegau addysg bellach yn gwerthfawrogi'r ystod o unedau dewisol sydd ar gael ar gymwysterau newydd Pearson BTEC Lefel 3 Chwaraeon a Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol Dyfarniad Cenedlaethol.
- diweddarwyd cynnwys cymwysterau ffitrwydd diwydiant-benodol YMCA Awards yn ddiweddar a dywedodd sawl darparwr dysgu wrthym eu bod yn symlach o ran cynnwys ac asesu.
- mae awydd, gan sawl darparwr dysgu a chyflogwyr, i gynnwys ychwanegol ar iechyd meddwl gael ei gynnwys mewn cymwysterau chwaraeon i adlewyrchu'r angen am fwy o ymwybyddiaeth o iechyd meddwl yn y diwydiant iechyd a ffitrwydd.

8. Mewn perthynas â'r asesiad o gymwysterau mewn chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus, nododd yr Adolygiad:

- defnyddiodd darparwyr dysgu ystod o ddulliau asesu i ganiatáu i ddysgwyr dangos sgiliau a gwybodaeth ond roedd colegau addysg bellach yn cydnabod y gallai fod angen mwy o gefnogaeth ar staff i ddefnyddio dulliau asesu amgen fel blogiau a recordiadau fideo.
- roedd ychydig o ddarparwyr dysgu yn pryderu y gallai maint y cynnwys a'r asesiad synoptig ar gyfer rhai unedau ar gymwysterau Pearson BTEC Lefel 3 Chwaraeon a Gwasanaethau Amddiffyn Dyfarniad Cenedlaethol arwain at ganolbwyntio ar asesu yn hytrach nag addysgu a dysgu.
- roedd sawl darparwr dysgu o'r farn bod cymwysterau lefel 3 BTEC Pearson yn fwy cadarn gydag asesiad allanol, ond roedd ychydig o ddarparwyr dysgu yn cwestiynu priodoldeb arholiadau allanol ar gyfer rhai dysgwyr galwedigaethol lefel 2.
- roedd asesiadau a gynhwysir mewn cymwysterau ar fframweithiau prentisiaeth ymarfer corff a ffitrwydd yn briodol ar gyfer y darparwyr dysgu seiliedig ar waith y gwnaethom eu cyfweld.
- roedd mwyafrif y darparwyr dysgu yn fodlon â lefel y gefnogaeth a gawsant gan gyrff dyfarnu er bod ychydig wedi nodi y byddent yn gwerthfawrogi mwy o gefnogaeth i bynciau pwnc-benodol ac y byddent yn croesawu adborth mwy adeiladol gan swyddogion sicrhau ansawdd allanol am waith dysgwyr.

Ein hymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad

9. Ym Mhennod 8 yr adroddiad hwn, rydym yn nodi'r camau yr ydym eisoes wedi'u cymryd, a'r rhai yr ydym yn bwriadu eu cymryd, i ymdrin â'r materion a godwyd gan yr Adolygiad.

Camau yr ydym wedi'u cymryd	
1	Gwnaethom rannu gyda'r cyrff dyfarnu y canfyddiadau sy'n ymwneud ag ystod a chynnwys cymwysterau ac fe wnaethom ofyn iddynt am eu cynlluniau cyfredol ac yn y dyfodol ar gyfer cynnig cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gofynasom iddynt am sicrwydd eu bod yn bwriadu parhau i gynnig cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Roeddem yn fodlon fod yr holl gyrff dyfarnu y gwnaethom siarad â hwy yn nodi eu bod yn bwriadu parhau i gynnig cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
2	Gwnaethom rannu'r canfyddiadau oedd yn ymwneud ag argaeledd eu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg gyda 1st4sport ac argymhellwyd yn gryf iddynt eu bod yn gwneud cais am ein Grant Cymorth i'r Gymraeg i sicrhau bod eu cymwysterau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ymateb i'n canfyddiadau, llwyddodd 1st4sport i wneud cais llwyddiannus am y Grant Cymorth i'r Gymraeg i sicrhau bod dewis o gymwysterau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â 1st4sport i adolygu cynnydd.
3	Gwnaethom gwrdd â'r holl gyrff dyfarnu eraill sy'n cynnig cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus a'u hatgoffa bod ein Grant Cymorth i'r Gymraeg ar gael a'u hannog i wneud cais am y grant hwn i sicrhau bod cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus cyfrwng Cymraeg addas ar gael.
4	Gwnaethom rannu gyda 1st4sport y canfyddiadau sy'n ymwneud â'u proses sicrhau ansawdd mewn canolfannau cyfrwng Cymraeg. Gwnaethom argymell yn gryf iddynt: • eu bod yn recriwtio swyddog sicrhau ansawdd allanol addas sy'n siarad Cymraeg i gefnogi canolfannau cyfrwng Cymraeg; ac yn • cynnal y broses sicrhau ansawdd allanol trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir am hynny gan ganolfannau. Mewn ymateb i'n canfyddiadau, mae 1st4sport wedi ein hysbysu eu bod wedi penodi swyddog sicrhau ansawdd allanol sy'n siarad Cymraeg a'u bod yn bwriadu cynnal y broses sicrhau ansawdd trwy gyfrwng y Gymraeg, pan fydd canolfannau'n gofyn amdani. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â 1st4sport i adolygu cynnydd.

5	Gwnaethom rannu'r canfyddiadau yn ymwneud â'r galw gan ganolfannau am gymhwyster lefel 3 addas i symud ymlaen o'u cymhwyster Lefel 2 Dysgu yn yr Awyr Agored gydag Agored Cymru, ac fe wnaethom awgrymu eu bod yn archwilio'r angen a'r galw gyda chanolfannau. Mewn ymateb i'n canfyddiadau, dywedodd Agored Cymru wrthym y byddent yn asesu lefel y galw gyda chanolfannau gyda'r bwriad o ystyried datblygu cymhwyster lefel 3 addas.
6	Gwnaethom rannu gyda Pearson y pryderon gan ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg nad oedd eu gwasanaeth gwirio aseiniadau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent wedi cadarnhau bod y gwasanaeth hwn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer aseiniadau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi cysylltu â'r holl randdeiliaid oedd yn rhan o'r Adolygiad i'w hysbysu am y canlyniad hwn a byddwn yn defnyddio ein **bwletin** newydd am gymwysterau cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod hyn yn cael ei gyfathrebu i bob canolfan.
7	Gwnaethom rannu canfyddiadau'r Adolygiad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a dwyn eu sylw at y canfyddiadau sy'n ymwneud â chymwysterau cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'u diweddaru ynghylch y cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus newydd sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.
8	Mewn ymateb i'r canfyddiadau sy'n ymwneud â hydrinedd asesiadau mewn cymwysterau BTEC blaenorol, gwnaethom gyfarfod â Pearson a dywedwyd wrthym fod cymwysterau Lefel 3 Dyfarniad Genedlaethol BTEC newydd wedi'u cynllunio i gynnwys llai o unedau ac asesiadau llai cymhleth er mwyn ateb y pryderon ynghylch hydrinedd yr asesu. Fe wnaethant ddweud wrthym hefyd fod y canllawiau asesu hanfodol wedi'u datblygu i gyfyngu ar nifer yr asesiadau sy'n ofynnol ar gyfer pob uned.
Camau y byddwn yn eu cymryd	
9	Gan ddefnyddio ein **bwletin** newydd am gymwysterau cyfrwng Cymraeg, byddwn yn cyfathrebu'n effeithiol â chanolfannau am y cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu datblygu neu sydd ar gael yn rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg.
10	Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chyrff dyfarnu i sicrhau bod y wybodaeth ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW) sy'n ymwneud ag argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn gyfredol ac yn gywir.
11	Byddwn yn rhannu tystiolaeth yr Adolygiad â Llywodraeth Cymru ac yn dwyn eu sylw at y canfyddiad sy'n ymwneud â'r galw gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith am fframweithiau prentisiaeth ymarfer corff a ffitrwydd lefel uwch.

Pennod 2: Trosolwg o'r sector

Yn y bennod hon, rydym yn cyflwyno data sy'n ymwneud â chymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus a gynigir yng Nghymru.

10. Dangosodd dadansoddiad bwrdd gwaith o gronfa ddata QiW fod 185 o gymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus cymeradwy / dynodedig ar gael yng Nghymru. Dangosodd dadansoddiad o ddata o gronfeydd data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion Llywodraeth Cymru (PLASC) a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfer 2018/19 fod dros 11,000 o gofnodion cymwysterau wedi'u cofnodi ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith ledled Cymru (Tabl 1[1]).

Tabl 1: Nifer y cymwysterau a'r cofrestriadau cymeradwy / dynodedig ar draws mathau o ddarparwyr yn 2018–19

	Nifer y cymwysterau cymeradwy / dynodedig	Cofrestriadau mewn addysg bellach	Cofrestriadau mewn ysgolion uwchradd	Cofrestriadau mewn dysgu seiliedig ar waith	Cyfanswm y Cofrestriadau
Lefel Mynediad	4	10	30	0	40
Lefel 1	24	395	385	560	1,340
Lefel 1/2	11	535	1,345	0	1,880
Lefel 2	71	710	2,425	495	3,630
Lefel 3	75	2,535	1,205	490	4,230
Cyfanswm	185	4,185	5,390	1,545	11,120

[1] Ffynhonnell: Dadansoddiad Cymwysterau Cymru o ddata PLASC Llywodraeth Cymru a LLWR ar gyfer cofnodion 2018-19 (mae niferoedd cofrestriadau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf ac mae unrhyw ffigurau llai na 5 ond sy'n fwy na 0 yn cael eu cuddio gyda *). Mae'r data'n cynnwys cofrestriadau am gymwysterau mewn ysgolion uwchradd a gynhelir ar gyfer dysgwyr cyn-16. Mae cyfansymiau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddant yn cyfateb i swm y ffigurau wedi'u talgrynnu. Nid yw cymwysterau TGAU nag TAG UG/Safon Uwch yn rhan o'r data yma gan eu bod y tu allan i gwmpas yr Adolygiad.

11. Yn 2018/19, roedd 11 corff dyfarnu yn cynnig cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Pearson oedd yn cynnig y rhan fwyaf o'r cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus ac roedd yn cyfrif am 73% o'r cofrestriadau yn 2018/19. (Tabl 2[1]).

Tabl 2: Nifer y cofrestriadau yn 2018/19 ar gyfer pob lefel cymhwyster ar draws cyrff dyfarnu

Awarding Body	Lefel Mynediad	Lefel 1	Lefel 1/2	Lefel 2	Lefel 3	Cyfanswm	Cyfran o'r farchnad
Pearson	30	940	1,465	2,135	3,510	8,075	73%
SLQ	0	350	0	620	65	1,035	9%
YMCA Awards	0	30	0	370	335	735	7%
Active IQ	0	0	0	390	225	615	5%
WJEC-CBAC	0	0	410	0	0	410	4%
OCR	10	0	0	35	30	75	1%
NOCN	0	0	0	40	0	40	<1%
SFJ Awards	0	0	0	0	35	35	<1%
1st4sport	0	0	0	20	10	30	<1%
NCFE	0	20	0	*	0	25	<1%
VTCT	0	0	0	0	20	20	<1%
Agored Cymru	0	0	0	20	0	20	<1%
City and Guilds of London Institute	0	0	0	0	*	*	<1%

12. Dangosir y cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus sydd â'r nifer uchaf o gofrestriadau ar gyfer 2018/19 ar draws colegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru yn nhabl 3 isod (Tabl 31). Mae'r data'n dangos bod y chwe chymhwyster gyda'r nifer uchaf o gofrestriadau yn 2018-19 wedi eu cynnig gan Pearson.

Tabl 3:
Cymwysterau gyda'r cofrestriadau cyffredinol uchaf ar gyfer 2018/19

Teitl y Cymhwyster	Cofrestriadau mewn addysg bellach	Cofrestriadau mewn dysgu seiliedig ar waith	Cofrestriadau mewn ysgolion uwchradd	Cyfanswm y cofrestriadau
Pearson BTEC Lefel 2 Tystysgrif Estynedig mewn Gwaith Tîm a Datblygiad Personol yn y Gymuned	30	0	1,050	1,080
Pearson BTEC Lefel 1/ Lefel 2 Dyfarniad Cyntaf mewn Chwaraeon	*	*	580	585
Pearson BTEC Lefel 3 Diploma mewn chwaraeon 90-credyd	515	0	45	560
Pearson BTEC Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Chwaraeon	475	0	65	540
Pearson BTEC Lefel 3 Diploma Atodol mewn Chwaraeon	170	0	335	505
Pearson BTEC Lefel 2 Tystysgrif mewn Arweinyddiaeth Trwy Chwaraeon	10	0	470	480
Pearson BTEC Lefel 3 Diploma 90-credyd mewn Gwasanaethau Cyhoeddus	460	0	10	470
CBAC Lefel 1/ 2 Dyfarniad mewn Chwaraeon	0	0	410	410
SLQ Lefel 2 mewn Arweinyddiaeth Chwaraeon Cymunedol	120	0	270	390
BTEC Pearson Lefel 2 Tystysgrif mewn Gwaith Tîm a Datblygiad Personol yn y Gymuned	0	0	355	355

Pennod 3: Methodoleg yr Adolygiad

Yn y bennod hon, rydym yn amlinellu sut y gwnaethom gynnal yr adolygiad sector cam 2 hwn.

Cwmpas a threfniadaeth

13. Fe wnaethom ymdrin â nodau'r Adolygiad trwy:

    - gyfweliadau manwl gyda darparwyr dysgu, cyrff dyfarnu, cyflogwyr, cyrff sector a rhanddeiliaid ehangach; a
    - holiadur dysgwyr ar-lein.

14. Gwnaethom ganolbwyntio ar gymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus ar lefelau 1, 2 a 3 a oedd yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr dros 16 oed ac a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru. Ni wnaethom adolygu Addysg Gorfforol TGAU na TAG UG/ Safon Uwch gan fod y rhain yn cael eu hystyried y tu allan i gwmpas yr Adolygiad. Ond roeddem yn barod i glywed barn am yr holl gymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus perthnasol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

15. Gwnaethom gynnal cyfweliadau manwl ar-lein gydag ystod o randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys:

    - cynrychiolwyr o golegau addysg bellach (darlithwyr, penaethiaid yr adrannau perthnasol ac uwch arweinwyr);
    - uwch reolwyr ac aseswyr o blith darparwyr dysgu yn seiliedig ar waith;
    - athrawon a phenaethiaid yr adrannau perthnasol mewn chweched dosbarth o fewn ysgolion uwchradd a gynhelir;
    - cyflogwyr (uwch reolwyr neu reolwyr hyfforddiant fel rheol);
    - cyrff dyfarnu (penaethiaid adrannau, swyddogion cyfrifol, neu reolwyr datblygu fel arfer); a
    - rhanddeiliaid ehangach fel cyrff sector, prifysgolion a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

16. Gwnaethom gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig gyda 58 o randdeiliaid i gyd (Tabl 4). Cynhaliwyd y cyfweliadau ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams oherwydd pandemig COVID-19. Cynhaliwyd cyfweliadau gan dîm bach o staff o Cymwysterau Cymru rhwng Medi 2020 a Chwefror 2021.

Tabl 4: Sampl o randdeiliaid

11 Colegau addysg bellach	**4** Darparwyr dysgu yn seiliedig ar waith	**11** Ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth	**13** Cyflogwr	**9** Cyrff dyfarnu	**10** Rhanddeiliaid ehangach

17. Trawsgrifiwyd cyfweliadau â rhanddeiliaid air am air a chawsant eu dadansoddi gan y Tîm Adolygu. Ar ôl dadansoddi'r holl drawsgrifiadau, daeth adolygwyr ynghyd i gytuno ar themâu trawsbynciol a ddaeth i'r amlwg ar draws y grwpiau o gyfranogwyr. Rhannwyd themâu oedd yn ymddangos gyda'r holl aelodau staff a oedd wedi cynnal cyfweliadau mewn proses agored, lle gellid herio a thrafod canfyddiadau neu ragdybiaethau allweddol.

Holiadur ar-lein

18. Er mwyn casglu safbwyntiau dysgwyr am eu cymwysterau, sicrhawyd bod holiadur ar gael trwy'r platfform Smart Survey am wyth wythnos rhwng Ionawr a Chwefror 2021. Barnwyd mai arolwg oedd y dull mwyaf addas i gasglu barn dysgwyr gan nad oedd rhyngweithio wyneb yn wyneb yn bosibl oherwydd pandemig COVID-19 a gellid cwblhau'r arolwg pan oedd hynny'n gyfleus i osgoi unrhyw faich ychwanegol ar ddysgwyr a chanolfannau.

19. Roedd yr arolwg ar gael ar wefan Cymwysterau Cymru ac fe'i hyrwyddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol. Anfonwyd dolen yr arolwg hefyd at bawb a oedd wedi cymryd rhan yn yr Adolygiad. Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau ymateb agored a chaeedig a oedd yn canolbwyntio ar linellau ymholi'r Adolygiad. Dadansoddwyd ymatebion gan o leiaf ddau aelod o'r Tîm Adolygu.

20. Cawsom gyfanswm o 382 o ymatebion llawn a 254 o ymatebion rhannol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn bobl ifanc 16-19 oed a oedd yn astudio mewn colegau addysg bellach (79%), ond cawsom ymatebion hefyd gan ddysgwyr oedd yn astudio mewn ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Roedd rhaniad bron yn gyfartal rhwng y rhai oedd yn astudio cymwysterau chwaraeon a'r rhai oedd yn astudio cymwysterau gwasanaethau cyhoeddus.

Ystyriaethau methodolegol

21. Er nad oedd yn bosibl ymgysylltu â phawb, rydym yn hyderus ein bod wedi gallu sicrhau sampl sy'n gynrychioliadol o'r grwpiau rhanddeiliaid. Fel gydag adolygiadau blaenorol o'r sector, mae wedi bod yn galonogol gweld y bu lefel uchel o gysondeb rhwng y canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg gan wahanol randdeiliaid.

22. Gwnaethom ymgysylltu â chyrff dyfarnu allweddol sy'n cynnig cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus ar ddechrau'r Adolygiad i drafod eu cynlluniau ar gyfer cymwysterau sydd o fewn cwmpas yr Adolygiad. Yna cynhaliom gyfarfodydd dilynol gyda'r cyrff dyfarnu i drafod y canfyddiadau oedd yn dod i'r amlwg a'r atebion posibl.

23. Mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid, a'r ymatebion i'n holiadur ar-lein, yn rhoi mewnwelediad defnyddiol inni i farn a chanfyddiadau'r rhai oedd yn cymryd rhan. Gwnaethom gyflwyno'r safbwyntiau a fynegwyd yn gywir, ond nid oeddem bob amser yn gallu dilysu na gwerthuso cywirdeb y safbwyntiau hynny.

Y canfyddiadau

Ym Mhenodau 4 i 7, rydym yn amlinellu canfyddiadau'r Adolygiad sy'n ymwneud â:

- Pennod 4: Yr ystod gyffredinol o gymwysterau
- Pennod 5: Cymwysterau cyfrwng Cymraeg
- Pennod 6: Cynnwys y cymwysterau a pha mor gyfredol y maent
- Pennod 7: Asesu

Pennod 4: Yr ystod gyffredinol o gymwysterau

Yn y bennod hon, rydym yn adrodd ar y canfyddiadau sy'n ymwneud â'r ystod o gymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael yng Nghymru.

Yr ystod o gymwysterau

24. Fe'n hysbyswyd gan ddarparwyr dysgu bod yr ystod o gymwysterau sydd ar gael yn caniatáu i ddysgwyr a darparwyr dysgu gael mynediad at gymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus addas. Mae'r rhan fwyaf o golegau addysg bellach a'r chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd yn cynnig cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus trwy Pearson, er i ychydig o golegau addysg bellach ddweud wrthym eu bod hefyd yn cynnig cymwysterau ymarfer corff a ffitrwydd penodol, o YMCA Awards ac Active IQ, i ddarparu dysgwyr gyda llwybr i gyflogaeth. Pearson sy'n cynnig y mwyafrif o gymwysterau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru er bod un coleg hefyd yn cynnig cymhwyster gwasanaethau cyhoeddus gan SFJ Awards.

"Rwy'n credu bod y cymwysterau sydd allan yna yn caniatáu inni gael dewis go iawn ac ystod dda."

Athro mewn ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth

"Byddwn i'n dweud bod... [yr ystod o gymwysterau] yn diwallu anghenion ein dysgwyr."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

25. Awgrymodd ychydig o ddarparwyr dysgu yr hoffent cael mwy nag un corff dyfarnu cynnig cymwysterau gwasanaethau cyhoeddus, oherwydd ar hyn o bryd dim ond Pearson sy'n eu cynnig, a hoffent gael mwy o ddewis o gymwysterau i ddiwallu eu hanghenion. Ond pan wnaethom gyfweld â chyrff dyfarnu, dywedwyd wrthym gan rai eu bod wedi tynnu cymwysterau gwasanaethau cyhoeddus yn ôl gan mai galw cyfyngedig oedd amdanynt gan ddarparwyr dysgu yng Nghymru.

"Mae yna lawer o fyfyrwyr sy'n dymuno ymuno â [Gwasanaethau Cyhoeddus]. Felly, rwy'n credu bod ... lle yn y farchnad i gael corff dyfarnu arall i efallai gynhyrchu opsiwn arall."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

26. Awgrymodd ymatebion i'r arolwg dysgwyr yr hoffai dysgwyr i gymwysterau Pearson BTEC gwasanaethau cyhoeddus lefel 3 gwmpasu ystod ehangach o rolau o fewn gwasanaethau cyhoeddus, gan eu bod yn dymuno symud ymlaen i swyddi penodol, megis y gwasanaeth ambiwlans, y lluoedd arfog neu'r gwasanaethau tân ac achub.

"Mae'n cyfateb ond hoffwn iddo ganolbwyntio mwy ar rolau penodol yn y [Gwasanaethau Cyhoeddus sydd â Gwisg Swyddogol] e.e. y Gwasanaeth Ambiwlans."

Dysgwr

27. Adroddodd ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth eu bod yn cynnig cymwysterau gan Pearson, Agored Cymru neu CBAC yn bennaf. Roedd mwyafrif yr ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth y gwnaethom eu cyfweld wedi bod yn cyflwyno hen gymwysterau Chwaraeon Lefel 3 BTEC Pearson (2010) sydd bellach wedi'u tynnu'n ôl. Roedd rhaniad bron yn gyfartal rhwng y rhai a oedd wedi symud i Chwaraeon Lefel 3 BTEC (2016) a chymwysterau newydd BTEC Lefel 3 Dyfarniad Cenedlaethol mewn Chwaraeon (2019). Dywedodd pob ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth oedd yn cyflwyno cymwysterau gwasanaethau cyhoeddus wrthym eu bod yn symud o'r cymhwyster BTEC (2010) blaenorol, sy'n cael ei dynnu'n ôl yn fuan, at gymhwyster newydd Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol Lefel 3 Dyfarniad Cenedlaethol BTEC (2020).

28. Mynegodd sawl darparwr dysgu awydd am gymwysterau gweithgaredd awyr agored ychwanegol, yn enwedig ar lefel 3. Dywedodd ychydig o ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth eu bod yn defnyddio cymhwyster Agored Cymru Lefel 2 Dysgu yn yr Awyr Agored, ond dywedasant wrthym yr hoffent gael llwybr dilyniant addas i lefel 3. Dywedon nhw fod y cymhwyster Agored Cymru ar lefel 2 yn benodol ar gyfer yr awyr agored yn hytrach na bod wedi ei gyfuno â chwaraeon a phe bai cymhwyster dilyniant addas ar gael ar lefel 3, byddai eu dysgwyr yn gallu dewis chwaraeon a gweithgareddau awyr agored fel opsiynau ôl-16 ar wahân.

"Rydyn ni wedi edrych ar amryw o gyrsiau lefel 2 Agored [Cymru] sy'n edrych yn ddiddorol iawn. Pe gallent ehangu'r rheini i lefel 3, byddai gennych y [dilyniant] llinol hwnnw."

Athro mewn ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth

29. Dywedodd ychydig o ddarparwyr dysgu y gwnaethom eu cyfweld wrthym fod cymhwyster newydd Chwaraeon a Gweithgareddau Awyr Agored Lefel 3 Dyfarniad Cenedlaethol BTEC Pearson (2019) yn cyd-fynd â safonau'r Sefydliad Dysgu Awyr Agored, a chroesawyd hyn gan i'r safonau hyn gael eu hysgrifennu ar y cyd â chyflogwyr yn y diwydiant gweithgareddau awyr agored. Dywedon nhw fod y cymhwyster yn cynnwys swm ystyrlon o gynnwys ar addysg awyr agored.

"Chwaraeon ac Awyr Agored [BTEC] 2019, roedd hynny'n wych i ni, oherwydd roeddem yn gallu rhoi swm ystyrlon o addysg awyr agored i mewn iddo."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

"Mae BTEC 2019 mewn chwaraeon a gweithgareddau awyr agored yn ôl a ddeallaf, yn cyd-fynd yn llawn â'r safonau galwedigaethol hynny [Sefydliad Dysgu Awyr Agored], sy'n wych."

Cyflogwr

30. Dywedodd darparwyr dysgu seiliedig ar waith wrthym eu bod yn gweithio gydag ystod o wahanol gyrff dyfarnu fel 1st4sport, Active IQ, Pearson, a YMCA Awards ac yn cyflwyno cymwysterau sy'n rhan o fframweithiau prentisiaeth yn bennaf. Dywedwyd wrthym fod ystod o gymwysterau addas ar gael ond mae ystod gyfyngedig o gymwysterau ar fframwaith y Rhaglenni Awyr Agored.

31. Fe'n hysbyswyd gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith bod galw, gan gyflogwyr, am gymwysterau arbenigol fel ioga, pilates a chryfder a chyflyru. Er bod y cymwysterau hyn ar gael, nid ydynt yn rhan o fframweithiau prentisiaeth ac, felly, nid yw mwyafrif y darparwyr dysgu yn y gwaith yn eu cynnig neu maent yn eu cynnig fel cyrsiau masnachol yn unig. Mewn ymateb i gwestiwn yn yr arolwg dysgwyr ar yr hyn y gellid ei wneud i wella cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus, gofynnodd dysgwyr hefyd am gymwysterau arbenigol ychwanegol.

"Mae Active IQ yn darparu Cryfder a Chyflyru Lefel 3 a Chryfder a Chyflyru Lefel 4 yn ogystal ag ioga a pilates. Mae yna Dystysgrif Lefel 4 mewn Hyfforddiant Personol hefyd sydd â mwy o ochr 'lles meddygol a meddyliol' ynddo. Ond nid oes fframweithiau prentisiaeth na chyllid ar eu cyfer er gwaethaf y galw gan gyflogwyr."

Tiwtor mewn darparwr dysgu seiliedig ar waith

32. Dywedodd sawl darparwr dysgu seiliedig ar waith a cholegau addysg bellach fod cymwysterau Hyfforddi Ffitrwydd Lefel 2 a Hyfforddiant Personol Lefel 3, a gynigir gan Active IQ a YMCA Awards, yn addas at y diben gan eu bod yn caniatáu i ddysgwyr gael mynediad i'r diwydiant iechyd a ffitrwydd. Dywedon nhw fod y cymwysterau'n gyfredol ac yn berthnasol i ddysgwyr gan eu bod yn ofyniad mynediad ar gyfer cyflogaeth. Cefnogwyd y farn hon hefyd gan gyflogwyr a ddywedodd fod y rhain yn gymwysterau hanfodol ar gyfer mynediad i'r diwydiant iechyd a ffitrwydd.

"Lefel 2 a 3, yr hyfforddwr ffitrwydd a'r hyfforddwr personol, rwy'n credu eu bod yn wirioneddol berthnasol. Maen nhw'n boblogaidd iawn, ac maen nhw yn addas iawn o ran lle mae pobl arni."

Tiwtor mewn darparwr dysgu seiliedig ar waith

"Mae YMCA [Hyfforddwr Ffitrwydd Lefel 2] yn eu gwthio i'r diwydiant ar unwaith, oherwydd maent yn gymwys ar lefel 2, ac maen nhw'n gallu ymarfer."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

Llwybrau dilyniant

33. Dywedodd sawl darparwr dysgu seiliedig ar waith wrthym fod fframweithiau prentisiaethau chwaraeon cyfredol yn symud ymlaen i lefel 3 yn unig, a bod galw am fframweithiau lefel uwch gan gyflogwyr. Fe wnaethant egluro eu bod ar hyn o bryd yn defnyddio fframweithiau rheoli generig ac yn eu cyflwyno mewn cyd-destun chwaraeon i ddiwallu anghenion cyflogwyr a darparu cymwysterau lefel uwch i ddysgwyr. Ond nid yw hyn bob amser yn addas gan nad yw pob dysgwr yn dymuno symud ymlaen i rolau rheoli. Mae fframwaith prentisiaeth Arferion Awyr Agored a Rheolaeth Lefel 4 ar gael, ond mae'n ymddangos nad yw hwn yn cael ei ddefnyddio ac nid yw'r cymwysterau ar y fframwaith ar gael bellach i dderbyn cyllid cyhoeddus ar eu cyfer.

"Yr unig beth sydd gennym ar gael i hamdden symud ymlaen fel lefel 4, yn dibynnu ar eu rôl, yw Rheoli ILM Lefel 4 a phethau felly. Ac wrth gwrs ... dydy pawb ddim yn mynd i reolaeth."

Tiwtor mewn darparwr dysgu seiliedig ar waith

"Rhaid i mi gyfaddef, pan edrychais ar brentisiaethau Cymru [Rhaglenni Awyr Agored], roedd yna lefel 3 a lefel 4. Yn y bôn, mae lefel 4 ar y silff oherwydd nad oes neb yn ei gymryd."

Cyflogwr

34. Dywedodd darparwyr dysgu seiliedig ar waith wrthym fod fframwaith prentisiaeth Arweinyddiaeth Gweithgareddau Lefel 2 yn gyflwyniad da i sut mae'r sector yn gweithio ac yn ymdrin â hanfodion fel iechyd a diogelwch. Fe wnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn gallu darparu cymwysterau ychwanegol i ddysgwyr, megis dyfarniadau Corff Llywodraethu Cenedlaethol, sy'n cefnogi dilyniant dysgwyr i gyflogaeth, gan eu bod yn ofynion mynediad ac yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr.

"Mae'r [Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol] yn rhoi fframwaith iddynt weithio o'i fewn o ran arwain y gweithgaredd ac yna rydym yn cysylltu cymhwyster y Corff Llywodraethu Cenedlaethol. Gallai rhywun adael [prentisiaeth] Arweinyddiaeth Gweithgaredd ar ôl blwyddyn, mae'n debyg y gallent fod â 10 i 12 cymhwyster ychwanegol ar ben eu prentisiaeth."

Tiwtor mewn darparwr dysgu seiliedig ar waith

35. Nododd llawer o golegau addysg bellach ac ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth fod cymwysterau Pearson BTEC lefel 3 mewn chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen i gymwysterau lefel uwch mewn addysg bellach ac uwch. Gofynnwyd i'r dysgwyr, yn yr arolwg dysgwyr, a oedd y cymhwyster yr oeddent yn ei astudio yn berthnasol i'w hastudiaeth neu eu gwaith yn y dyfodol ac roedd 84% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf.

"Mae [Pearson BTEC Lefel 3 mewn Chwaraeon (2016)] yn paratoi pobl ifanc i fynd ymlaen i'r brifysgol ac mae'n debyg mai dyna un o'r marciau llwyddiant, ac mae'n ymddangos ei fod yn eu paratoi'n dda iawn."

Athro mewn ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth

36. Dywedodd ychydig o golegau addysg bellach fod cymwysterau newydd Pearson BTEC Lefel 3 Gwobr Genedlaethol mewn Chwaraeon (2019) yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen i gyflogaeth gan eu bod yn cynnwys deunydd sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant. Mae Pearson hefyd wedi cyflwyno cyfres o gymwysterau sgiliau diwydiant lefel 2 BTEC gan gynnwys cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi dilyniant i gyflogaeth.

"Pan ryddhawyd manylebau newydd [Pearson BTEC Lefel 3 mewn Chwaraeon], maen nhw mewn gwirionedd yn pontio llawer o'r bylchau sgiliau hynny, sydd yn rhywbeth addawol iawn wrth gyflwyno cymwysterau achrededig CIMPSA. Felly mae hynny wedi bod yn beth positif iawn i ni, ac rydyn ni'n eithaf hyderus nawr y gallwn ni anfon rhai dysgwyr i mewn i [Addysg Uwch], ond hefyd mae cyfle iddyn nhw symud yn uniongyrchol i gyflogaeth."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

37. Dywedodd ychydig o golegau addysg bellach ac ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth wrthym fod ychydig o ddysgwyr yn ei chael hi'n anodd symud ymlaen o gymwysterau Pearson lefel 1/2 mewn chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus i gymwysterau lefel 3. Dywedwyd wrthym fod dysgwyr yn cael naill ai gymhwyster lefel 1 neu gymhwyster lefel 2 yn dibynnu ar eu gradd gyffredinol ac os yw dysgwr yn ennill cymhwyster lefel 1 gall effeithio ar p'un a allant symud ymlaen i'r cymhwyster lefel 3 ai peidio. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu pe bai dysgwr yn cyfla wni lefel 1, y byddai'r dysgwr fel arfer yn trosglwyddo i faes pwnc arall fel astudiaethau busnes neu deithio a thwristiaeth.

"Mae dysgwyr sy'n pasio ar lefel 1 ar y cymhwyster [Lefel] 1/2 yn cael anhawster â'u llwybr dilyniant gan na fyddent yn barod ar gyfer lefel 3."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

38. Gwnaeth sawl coleg addysg bellach sylwadau ar gymhwyster Pearson BTEC Lefel 1 mewn Astudiaethau Galwedigaethol a dweud wrthym fod y cymhwyster yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy a symud ymlaen i gymwysterau lefel uwch.

"Mae [Astudiaethau Galwedigaethol Lefel 1] yn ymwneud â datblygu'r sgiliau hynny, yn sgiliau academaidd a phersonol, sy'n eu helpu. Pethau fel sgiliau trefnu hefyd, oherwydd bod yn rhaid cwrdd â therfynau amser. Dyna'r math o sgiliau pan fyddwch chi'n symud i lefel 2 a 3, sy'n bwysig iawn ac maen nhw'n eu helpu i drefnu eu llwyth gwaith fel eu bod nhw'n fwy llwyddiannus."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

39. Dywedodd llawer o gyflogwyr y gwnaethom eu cyfweld wrthym fod sgiliau meddalach fel cyfathrebu effeithiol a sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Fe wnaethant ddweud wrthym hefyd, o fewn y gwasanaethau cyhoeddus, bod sgiliau ymarferol a phrofiad bywyd yn bwysig. Mae ymatebion yr arolwg dysgwyr yn awgrymu bod dysgwyr yn cydnabod bod y sgiliau hyn yn berthnasol i'w gyrfaoedd yn y dyfodol.

"Mae'r sgiliau trosglwyddadwy, yn enwedig sgiliau cyfathrebu a'r gallu i fentora, yn bwysig iawn. Mae'r sgiliau trosglwyddadwy yn bwysicach na bod â chymhwyster penodol."

Cyflogwr

"Yr agwedd ar y cymwysterau fydd yn fwyaf perthnasol i'm gyrfa yw'r sgiliau a'r rhinweddau rydyn ni'n eu dysgu fel cyfathrebu, arweinyddiaeth a llawer o sgiliau eraill yn y gwasanaethau cyhoeddus."

Dysgwr

40. Dywedodd cyflogwyr y gwnaethom eu cyfweld wrthym nad yw cymwysterau gwasanaethau cyhoeddus lefel 3 yn rhagofyniad ar gyfer mynediad i gyflogaeth yn y sector. Ond dywedasant fod y cymwysterau'n werthfawr ar gyfer datblygiad dysgwyr ac yn galluogi dysgwyr i drafod eu profiadau mewn trafodaethau proffesiynol mewn cyfweliadau.

"Dydy [Gwasanaethau Cyhoeddus] ddim yn ofyniad ymlaen llaw, ond gallwch chi ddychmygu pan gyrhaeddan nhw'r cyfweliad dyna sy'n eich gosod chi ar wahân i'r lleill, dyna pryd y byddai hynny'n dod yn bwysig."

Cyflogwr

41. Dywedodd y Gwasanaethau Tân ac Achub wrthym fod cymhwyster SFJ Awards Diploma Lefel 3 newydd mewn Gwasanaethau Brys, Tân ac Achub a ddefnyddir ar brentisiaeth Gweithrediadau'r Gwasanaeth Brys a Thân yn addas at y diben. Fe wnaethant ddweud wrthym fod eu holl ddechreuwyr newydd yn cwblhau'r cymhwyster hwn ac roedd hynny'n sicrhau cydraddoldeb ledled Cymru ac yn caniatáu i staff symud rhwng y gwahanol wasanaethau.

"Mae'r anrhydeddau deuol [Diploma Lefel 3 mewn Gwasanaethau Brys, Tân ac Achub] yn cael eu defnyddio gan y Canolbarth a'r Gorllewin a chan Ogledd Cymru hefyd, felly mae'n gymhwyster ar gyfer Cymru gyfan ... trwy ddefnyddio'r un corff dyfarnu, mae'n golygu bod mwy o gydraddoldeb ar draws Cymru gyfan."

Cyflogwr

Pennod 5: Cymwysterau cyfrwng Cymraeg

Yn y bennod hon, rydym yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n ymwneud â chymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg

42. Mae argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn un o ddwy brif ystyriaeth adolygiadau sector cam 2. Pwysleisiodd ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg bwysigrwydd sicrhau bod ystod o gymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus addas ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mynegwyd peth pryder ynghylch argaeledd cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Mae cymwysterau [Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus lefel 3 Pearson] yn hanfodol i ni fel ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Rydyn ni wedi cael pryderon mawr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ynghylch argaeledd y cyrsiau hyn wrth symud ymlaen."

Athro mewn ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth

43. Fe'n hysbyswyd gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith cyfrwng Cymraeg bod yn rhaid iddynt gyfieithu manylebau ac adnoddau ar gyfer y cymwysterau 1st4sport y maen nhw yn eu cynnig. Fe wnaethant ddweud wrthym eu bod yn dîm bach, a chan eu bod yn cynnig sawl cymhwyster 1st4sport, ar draws gwahanol fframweithiau prentisiaeth, bod hyn wedi cael effaith sylweddol ar eu hamser.

"Nid yw'r corff dyfarnu yn cynhyrchu'r cyfan yn y Gymraeg. Rydyn ni wedi gorfod cyfieithu popeth ein hunain. Felly, mae ein holl ddeunyddiau ategol, yr holl adnoddau i ddysgwyr, popeth, wedi gorfod cael eu cynhyrchu gennym ni ein hunain yn ddwyieithog."

Tiwtor mewn darparwr dysgu seiliedig ar waith

44. Gwnaethom rannu'r canfyddiadau hyn gyda 1st4sport ac egluro'r effaith ar ddarparwyr dysgu yn y gwaith. O ganlyniad, gwnaeth 1st4sport gais llwyddiannus am ein Grant Cymorth i'r Gymraeg i sicrhau bod dewis o gymwysterau rhaglenni chwaraeon ac awyr agored ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

45. Pan gyflwynodd Pearson eu cymwysterau newydd Dyfarniad Cenedlaethol Chwaraeon Lefel 3 BTEC (2019) a Gwasanaethau Amddiffyn (2020) gwnaethant gais llwyddiannus am Grant Cymorth i'r Gymraeg Cymwysterau Cymru. Mae'r cymwysterau hyn wedi bod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a dywedodd darparwyr dysgu wrthym fod hynny yn beth positif iawn.

46. Ond dywedodd ychydig o golegau addysg bellach ac ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg wrthym eu bod wedi symud i gymwysterau Chwaraeon Lefel 3 BTEC Pearson (2016) sy'n cynnwys arholiadau allanol ond nad ydynt wedi'u cyfieithu. Dywedodd un ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth wrthym y byddent yn cynnig dull dwyieithog, pe bai angen, lle byddai'r uned a arholir yn allanol yn cael ei haddysgu a'i hasesu yn Saesneg a gweddill y cymhwyster yn y Gymraeg.

"Mae'n dipyn o her ar hyn o bryd oherwydd nid yw manyleb 2016 rydyn ni'n ei chynnig gan BTEC wedi'i chyfieithu eto felly nid yw'r arholiadau ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

"Mae'n falans o ddarparu'r peth gorau y gallwn ar gyfer y dysgwyr, ac os yw hynny'n golygu bod un o'r unedau sy'n cael ei arholi trwy gyfrwng y Saesneg a'r arholiad trwy gyfrwng y Saesneg, yna fel 'na mae hi oherwydd ar ddiwedd y dydd y dysgwyr yw'r bobl bwysicaf yn hyn i gyd."

Athro mewn ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth

47. Dywedodd sawl coleg addysg bellach wrthym fod galw cynyddol am gymwysterau gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg a'u bod wedi gweld nifer cynyddol o ddysgwyr yn dod o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Fe wnaethant drafod eu cynlluniau ar gyfer datblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y maes hwn.

"Rydyn ni wedi sylwi dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf y bu cynnydd pendant, yn sicr o fewn gwasanaethau cyhoeddus, yn nifer y dysgwyr sy'n dod atom ni o ysgolion cyfrwng Cymraeg."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

48. Fe'n hysbyswyd hefyd gan gyflogwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus bod sgiliau Cymraeg yn ofyniad pwysig ar gyfer mynediad i'r sector gwasanaethau cyhoeddus.

"Mae'n faen prawf dymunol, ond mae'n rhaid i bawb sy'n dod i mewn i blismona nawr, neu os ydych chi'n cael dyrchafiad tra rydych yn y gwaith plismona, ennill cymhwyster lefel 2 o leiaf yn y Gymraeg."

Cyflogwr

49. Dywedodd ychydig o gyflogwyr wrthym mai dim ond nifer gyfyngedig o hyfforddwyr gweithgareddau awyr agored sy'n siarad Cymraeg. Dywedodd dwy o'r prifysgolion y gwnaethom eu cyfweld wrthym eu bod bellach yn cyflwyno modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyrsiau gradd y rhaglen awyr agored i annog dysgwyr sy'n siarad Cymraeg i barhau â'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Mae yna fwlch yn y farchnad ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y sector gweithgareddau awyr agored."

Cyflogwr

50. Fe'n hysbyswyd gan sawl darparwr dysgu am yr heriau o gynnig cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Esboniodd ychydig o golegau addysg bellach y gallai dosbarthiadau bach arwain at brofiad dysgu gwahanol pan fydd cymwysterau'n cynnwys gwaith grŵp. Ond esboniodd un coleg addysg bellach eu bod yn archwilio'r defnydd o lwyfannau ar-lein ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg fel y gallent greu grŵp hyfyw ar draws campysau coleg gwahanol.

"Un o fanteision addysgu o bell yw y gallem yn y dyfodol gyfuno'r holl siaradwyr Cymraeg [ar wahanol gampysau], eu rhoi gyda'i gilydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chael ein staff Cymraeg eu hiaith i gyflwyno'r ddarpariaeth."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

51. Tynnodd cyrff dyfarnu sylw hefyd at y ffaith fod cael nifer fach o ddysgwyr yn ymgymryd â chymwysterau yn y Gymraeg yn her gan nad yw bob amser yn hyfyw o safbwynt ariannol i sicrhau bod yr holl gymwysterau ar gael yn y Gymraeg.

52. Nododd ychydig o golegau addysg bellach y gallai rhai o'u staff Cymraeg fod yn brin o hyder wrth ddarparu cymwysterau yn gwbl ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrthym fod ganddyn nhw arian ychwanegol i gynyddu nifer y tiwtoriaid sy'n siarad Cymraeg ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a'u bod yn annog darparwyr dysgu i wneud cais am y cyllid.

"Hyd yn oed gyda'n staff sy'n siarad Cymraeg, mae'n anodd iawn iddyn nhw fod â'r hyder i addysgu a chyflenwi trwy'r Gymraeg mewn gwirionedd."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

53. Her arall a nodwyd gan golegau addysg bellach oedd amharodrwydd dysgwyr i gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe wnaethant ddweud wrthym y byddai rhai dysgwyr yn dewis cymryd asesiadau llafar yn y Gymraeg ond y gallent fod yn brin o hyder wrth gyflwyno asesiadau ysgrifenedig yn y Gymraeg felly byddai'n well ganddynt wneud hynny yn y Saesneg.

Asesu trwy gyfrwng y Gymraeg

54. Yn ogystal â'r pryderon a godwyd ynghylch argaeledd asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer cymwysterau 1st4Sport (gweler paragraffau 43 i 44 uchod) nodwyd pryderon hefyd nad oedd 1st4sport yn ymgymryd â'r broses sicrhau ansawdd allanol trwy gyfrwng y Gymraeg mewn canolfannau cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ganolfan gyfieithu gwaith dysgwyr ar lafar a chwblhau adroddiadau gwirio mewnol yn y Saesneg fel y gallai'r swyddog sicrhau ansawdd allanol gael mynediad atynt nad oedd yn broses effeithiol i'r ganolfan.

"[Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol] ... maen nhw'n gefnogol iawn, alla' i ddim dadlau â hynny, ond mae'n rhaid i mi eistedd yno a chyfieithu ar eu cyfer a'u cyfeirio at bethau, felly maen nhw'n gofyn,'Ble alla i gasglu maen prawf?' 'Dangoswch i mi ble mae'r dystiolaeth sy'n cwrdd â hyn', 'Allwch chi esbonio'r dystiolaeth honno i mi?' felly mae'n andros o broses. Rwy'n ysgrifennu adroddiadau [sicrhau ansawdd mewnol] yn y Saesneg felly o leiaf maen nhw'n gallu gweld yr agwedd honno. "

Tiwtor mewn darparwr dysgu seiliedig ar waith

55. Mewn ymateb i'n canfyddiadau, mae 1st4sport wedi ein hysbysu eu bod bellach wedi penodi swyddog sicrhau ansawdd allanol sy'n siarad Cymraeg ac maent yn bwriadu cynnal y broses sicrhau ansawdd allanol trwy gyfrwng y Gymraeg, pan fydd canolfannau yn gofyn am hynny. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â 1st4sport i fonitro ac adolygu cynnydd.

56. Dywedodd ychydig o ganolfannau cyfrwng Cymraeg, pan ddyrennir dilyswyr safonau iddynt, eu bod yn gwirio gyda Pearson i sicrhau eu bod yn cael dilyswr safonau sy'n siarad Cymraeg. Dywedon nhw mai'r rheswm am hyn yw eu bod wedi cael dilyswyr Saesneg eu hiaith o'r blaen er bod Pearson yn ymwybodol eu bod yn ganolfan cyfrwng Cymraeg. Dywedodd ychydig o ysgolion uwchradd wrthym eu bod yn annog eu staff i wneud cais i ddod yn ddilyswyr safonau i gynyddu nifer y dilyswyr safonau sy'n siarad Cymraeg sydd ar gael.

"Yr hyn sy'n digwydd bob amser yw y bydd [dilyswr safonau] cyfrwng Saesneg yn cysylltu â ni yn gyntaf ac yna mae'n rhaid i ni atgoffa Pearson ein bod mewn gwirionedd yn ysgol cyfrwng Cymraeg."

Athro mewn ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth

57. Nid oedd darparwyr dysgu bob amser yn gwbl ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt mewn perthynas â chefnogaeth ar gyfer asesu cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, dywedodd rhai ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg wrthym nad oedd y gwasanaeth gwirio aseiniadau a ddarperir gan Pearson ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond fe wnaethom ofyn i Pearson am hyn, ac maent wedi dweud wrthym y gellir defnyddio'r gwasanaeth gydag aseiniadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus.

Argaeledd adnoddau cyfrwng Cymraeg

58. Esboniodd rhai colegau addysg bellach ac ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth fod mwy o adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael gan ychydig o gyrff dyfarnu a oedd, yn eu barn hwy, yn gadarnhaol iawn. Gwnaethom hefyd siarad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg i'w defnyddio mewn cymwysterau ôl-16. Fe wnaethant ddweud wrthym eu bod wedi datblygu sawl adnodd dwyieithog ar gyfer cymwysterau gwasanaethau cyhoeddus lefel 3 gyda'r Consortiwm Dysgu Cyfunol, ac roedd y rhain bellach ar gael ar Hwb. Fe wnaethant egluro y bydd cam nesaf y prosiect yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r defnydd o Hwb i golegau addysg bellach.

"Mae mwy a mwy o adnoddau [cyfrwng Cymraeg] yn dod drwodd, sy'n gadarnhaol."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

59. Dywedodd sawl ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg y gwnaethom eu cyfweld wrthym eu bod yn gweithio gydag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg lleol eraill i rannu adnoddau. Fe wnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn cyfuno dysgwyr o wahanol ysgolion ar gyfer cymwysterau gwasanaethau cyhoeddus i wneud cyrsiau'n hyfyw. Dywedodd rhai colegau addysg bellach wrthym eu bod wedi derbyn cyllid ar gyfer datblygu deunyddiau ac adnoddau trwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cymwysterau.

"Rydyn ni wedi cael rhywfaint o arian ac rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda cholegau partner i ddatblygu ein [hadnoddau cyfrwng Cymraeg] ein hunain."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

"Mae yna lawer o waith yn digwydd rhwng ysgolion, a chydweithio, yn enwedig ar gyfer y cymhwyster newydd hwn [Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol 2020 Lefel 3 BTEC Pearson]."

Athro mewn ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth

60. Dywedodd y dysgwyr hynny a oedd yn astudio eu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg wrthym fod ganddynt ddigon o adnoddau cyfrwng Cymru gan ganolfannau a chyrff dyfarnu, ond fe wnaethant nodi mai prin oedd yr adnoddau a'r wybodaeth ehangach o gymharu â'r rhai sydd ar gael yn Saesneg.

"Rwy'n derbyn yr holl wybodaeth a deunyddiau sydd eu hangen arnaf i gwblhau fy nghymhwyster trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae'n anoddach dod o hyd i wybodaeth ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg."

Dysgwr

Pennod 6: Cynnwys cymwysterau

Yn y bennod hon, rydym yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n ymwneud â chynnwys y cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus ac yn ystyried pa mor gyfredol y maent.

61. Dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu wrthym fod gan y cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus y maent yn eu cynnig gynnwys cyfoes a pherthnasol. Mynegodd rhai darparwyr dysgu awydd i ddeunydd ychwanegol gael ei gynnwys mewn cymwysterau chwaraeon i adlewyrchu'r datblygiadau mewn ymwybyddiaeth ynghylch iechyd meddwl, safbwynt a gefnogwyd gan gyflogwyr. Roedd dysgwyr yn y maes chwaraeon hefyd yn cydnabod yr angen i gynnwys ymwybyddiaeth ynghylch iechyd meddwl yng nghynnwys y cymwysterau.

"Byddwn i'n dweud mai rhywbeth nad yw o reidrwydd yn rhan o unrhyw un o'r cymwysterau rydyn ni'n eu cyflwyno yw, er enghraifft, unedau neu elfennau ym maes iechyd meddwl."

Tiwtor mewn darparwr dysgu seiliedig ar waith

"Cynhwyswch adran ar iechyd meddwl a rheoli straen fel [Hyfforddwr Personol]. Rydyn ni i gyd yn gwybod, os ydych chi'n gwneud ymarfer corff, mae'n helpu i wella iechyd meddwl felly byddai'n dda cael adran sy'n rhan o'r cymhwyster er mwyn i ni allu cyrraedd a helpu mwy o bobl."

Dysgwr

62. Dywedodd sawl darparwr dysgu sy'n cyflwyno cymwysterau Hyfforddi Ffitrwydd Lefel 2 a Hyfforddwr Personol Lefel 3 YMCA Awards wrthym eu bod wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar. Dywedon nhw fod y cymwysterau newydd yn symlach o ran cynnwys ac asesu.

"Mae [YMCA Awards] wedi siarad ag arbenigwyr yn y diwydiant ac wedi symleiddio eu holl asesiadau a'u portffolios a hefyd mae'r meini prawf i gyd wedi newid [ac] yn fwy perthnasol."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

63. Dywedodd un darparwr dysgu seiliedig ar waith wrthym fod rhai unedau ar gymhwyster Lefel 3 1st4sport Datblygu Chwaraeon yn heriol iawn o gymharu â chymwysterau tebyg ar yr un lefel.

"Mae gennym ni broblemau mwy gyda Datblygu Chwaraeon Lefel 3 ... oherwydd ... mae yna fwlch mawr rhyngddo a Lefel 3 mewn Rhaglenni Awyr Agored NVQ. Mae rhai o'r unedau yn amlwg ar lefel pedwar neu bump ... sy'n anodd iawn i ddysgwr sydd newydd wneud lefel dau mewn Arweinyddiaeth Gweithgareddau [ac] yna i fynd ymlaen at hynny."

Tiwtor mewn darparwr dysgu seiliedig ar waith

64. Fel rhan o'r arolwg dysgwyr, gwnaethom ofyn i ddysgwyr beth ellid ei wneud i wella'r cymwysterau chwaraeon neu wasanaethau cyhoeddus yr oeddent yn eu hastudio. Ymateb cyffredin gan ddysgwyr oedd y byddent yn gwerthfawrogi cynnwys mwy ymarferol yn eu cymwysterau. Ond roeddent yn cydnabod bod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar eu mynediad at elfennau ymarferol y cyrsiau ac efallai nad yw hyn yn adlewyrchiad cywir o gynnwys y cymhwyster mewn blwyddyn nodweddiadol.

"Rwy'n hapus gyda fy nghwrs yn gyffredinol ond hoffwn gael mwy o wersi ymarferol ond mae'n amlwg yn anodd ar hyn o bryd."

Dysgwr

65. Dywedodd colegau addysg bellach fod cymwysterau newydd Pearson BTEC Lefel 3 Dyfarniad Cenedlaethol (2019) a Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol (2020) yn gyfoes ac yn addas at y diben o gymharu â chymwysterau blaenorol BTEC (2010).

"Rwy'n credu bod [cymwysterau Pearson BTEC Lefel 3 Gwobr Genedlaethol mewn Chwaraeon a Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol] yn llawer mwy cyfoes ac rwy'n credu eu bod yn cynnig llawer mwy o brofiad a mewnwelediad i'r diwydiant nag y mae'r manylebau blaenorol yn ei wneud hefyd."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

66. Dywedodd sawl ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth a cholegau addysg bellach wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r ystod o unedau dewisol sydd ar gael ar gyfer cymwysterau Pearson BTEC lefel 3 mewn chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus gan ei fod yn caniatáu iddynt deilwra'r cyrsiau i ddiwallu eu hanghenion. Roeddent hefyd yn gwerthfawrogi'r ystod ehangach o unedau o fewn cymhwyster Lefel 3 Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol (2020) sydd bellach yn targedu rolau swyddi ehangach fel parafeddygon a'r gwasanaethau ambiwlans. Datgelodd yr arolwg dysgwyr fod llawer o ddysgwyr hefyd yn hapus gyda'r ystod o unedau a gwmpesir yn eu cymwysterau ac yn aml roeddent yn nodi mai unedau penodol fel anatomeg a ffisioleg, gweithgareddau awyr agored a throsedd a'r system gyfreithiol, oedd rhan fwyaf perthnasol eu cwrs.

"Rwy'n credu bod yr ystod o unedau dewisol [cymwysterau Pearson BTEC lefel 3] y mae'n rhaid i ni ddewis ohonynt yn caniatáu inni nodi'n bendant wrth ein myfyrwyr a'r cyfleusterau fod yn rhaid i ni eu cefnogi gyda hynny hefyd."

Athro mewn ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth

Pennod 7: Asesu

Yn y bennod hon, rydym yn adrodd ar y canfyddiadau sy'n ymwneud ag asesu cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus.

67. Dywedodd y rhan fwyaf o golegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith wrthym eu bod yn defnyddio ystod o ddulliau asesu, ac mae'r rhain yn caniatáu i ddysgwyr ddangos y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i symud ymlaen i astudio ymhellach, addysg uwch, neu gyflogaeth.

"Rwy'n credu bod y dulliau asesu yn gynhwysol ar gyfer pob arddull dysgu wahanol. Mae'n hyrwyddo dysgu annibynnol, dysgu trwy asesu ac yn ymgorffori'r sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy ehangach."

Tiwtor mewn darparwr dysgu seiliedig ar waith

68. Dywedodd llawer o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith fod maint yr asesu a gynhwysir yn y cymwysterau a gyflwynwyd ganddynt yn ymarferol a bod y gallu i groesgyfeirio meini prawf asesu yn helpu i sicrhau nad oedd dysgwyr yn cael eu gorlethu gan asesiadau. Dywedon nhw fod yr asesiadau sy'n ofynnol ar gyfer cymwysterau ymarfer corff a ffitrwydd yn berthnasol gan eu bod yn adlewyrchu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer gweithio yn y diwydiant iechyd a ffitrwydd.

"Dim gormod o asesu a gallu croesgyfeirio o fewn y fframwaith prentisiaeth. [Rydym] yn defnyddio cynllun asesu sy'n caniatáu ar gyfer croesgyfeirio canlyniadau a meini prawf dysgu ar draws sawl cymhwyster."

Tiwtor mewn darparwr dysgu seiliedig ar waith

69. Cydnabu ychydig o golegau addysg bellach y gallai fod angen mwy o hyfforddiant ar staff i roi'r hyder iddynt ddefnyddio gwahanol ddulliau asesu. Fe wnaethant ddweud wrthym y byddent yn croesawu cefnogaeth ychwanegol gan gyrff dyfarnu ar y mathau o dystiolaeth y gellid eu defnyddio i ymdrin â meini prawf asesu. Gwnaethom drafod y mater hwn gyda Pearson, a dywedasant wrthym y byddent yn darparu canllawiau cyflwyno i gefnogi dulliau asesu ar gyfer Lefel 3 Dyfarniadau Cenedlaethol BTEC newydd.

"[Mae angen i ni] ddatblygu ein timau staff i feddwl am ffyrdd newydd, arloesol, creadigol o asesu dysgwyr a rhoi cyfle iddyn nhw ddangos bod ganddyn nhw'r wybodaeth trwy flogio, trwy adborth clywedol a phethau felly."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

70. Nododd rhai colegau addysg bellach fod maint y cynnwys yng nghymwysterau newydd Lefel 3 Dyfarniadau Cenedlaethol BTEC (2019) a Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol Pearson (2020) yn golygu y gallai athrawon a darlithwyr ganolbwyntio ar asesu yn hytrach nag addysgu a dysgu ac y gallai asesu fynd yn ormodol. Ond dywedodd darparwyr dysgu eraill fod maint y cynnwys yn ei gwneud yn bosibl i archwilio'r pwnc yn ddyfnach a'u galluogi i greu prosiectau seiliedig ar waith gan wneud asesiadau'n fwy hylaw i ddysgwyr.

"O safbwynt dysgwyr, mae'n ei gwneud yn bosibl i archwilio'n ddyfnach i'r unedau, a hefyd maen nhw'n dechrau sylweddoli beth yw'r themâu trawsbynciol rhwng unedau hefyd."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

"Mae'n debyg bod y cymwysterau a'r asesiadau bellach yn drymach. Mae'r amseriadau a'r cyllid a gawn yn golygu nad oes gennym gymaint o amser i'w gyflawni. Ac mae'n debyg bod llawer o'r gwaith cyflenwi bellach yn canolbwyntio ar yr asesu."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

71. Mynegodd colegau addysg bellach ac ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth farn wahanol am rôl arholiadau mewn cymwysterau galwedigaethol. Dywedodd sawl coleg addysg bellach ac ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth wrthym nad yw arholiadau yn addas i bob dysgwr, yn enwedig y rhai sy'n dilyn llwybrau galwedigaethol ar lefel 2.

"Rwy'n credu bod hynny'n wirioneddol annheg, oherwydd mae hynny'n graddio eu lefel ar sail eu gallu i wneud arholiad a'u sgiliau arholiad, nid ar eu gallu i wneud chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus ar lefel 2."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

72. Ond mynegodd rhai colegau addysg bellach y farn bod cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus lefel 3 BTEC Pearson yn fwy cadarn a thrylwyr wrth gynnwys asesiadau a osodir yn allanol.

"Dydy o ddim yn beth drwg cael yr asesiadau hynny. Rwy'n credu ei fod yn dda iawn ac mae'n cyflwyno mwy o gadernid a thrylwyredd i'r cymhwyster [lefel 3 BTEC]."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

73. Mynegodd rhai darparwyr dysgu bryder hefyd am yr amserlen arholi ar gyfer cymwysterau Pearson BTEC sef mis Ionawr a mis Mehefin ym mhob blwyddyn academaidd. Dywedodd darparwyr dysgu wrthym eu bod yn cofrestru dysgwyr ar gyfer arholiad mis Ionawr fel eu bod yn cael cyfle i ail-sefyll ym mis Mehefin, os oes angen. Ond dywedasant fod cofrestru dysgwyr ar gyfer ffenestr mis Ionawr yn rhoi llawer o bwysau ychwanegol ar ddysgwyr a allai fod angen amser i setlo i'r cwrs ac y gallai hyn arwain at ffocws ar addysgu ar gyfer yr arholiad. O ganlyniad, roedd rhai colegau addysg bellach wedi newid o gymwysterau Pearson i gymwysterau Lefel 2 Chwaraeon OCR (2012).

"Dim ond ers efallai 12 wythnos maen nhw wedi bod gyda ni. Nid yw strwythur [arholiad] hynny yn teimlo'n iawn. Mae'n rhoi llawer o bwysau ar y dysgwyr."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

74. Dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu wrthym eu bod yn fodlon gyda lefel y gefnogaeth a gânt gan gyrff dyfarnu. Nododd sawl coleg addysg bellach ac ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth y byddent yn gwerthfawrogi mwy o gefnogaeth gan gyrff dyfarnu ar gyfer pynciau ac asesiadau pwnc-benodol. Fe wnaethant ddweud wrthym hefyd y byddent yn croesawu adborth mwy adeiladol gan swyddogion sicrhau ansawdd allanol yn ymwneud â thystiolaeth asesu.

Pennod 8: Camau gweithredu

Yn y bennod hon, rydym yn amlinellu'r camau yr ydym wedi'u cymryd, ac rydym yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â chanfyddiadau'r Adolygiad.

Camau yr ydym wedi'u cymryd	
1	Gwnaethom rannu gyda'r cyrff dyfarnu y canfyddiadau sy'n ymwneud ag ystod a chynnwys cymwysterau ac fe wnaethom ofyn iddynt am eu cynlluniau cyfredol ac yn y dyfodol ar gyfer cynnig cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gofynasom iddynt am sicrwydd eu bod yn bwriadu parhau i gynnig cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Roeddem yn fodlon fod yr holl gyrff dyfarnu y gwnaethom siarad â hwy yn nodi eu bod yn bwriadu parhau i gynnig cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
2	Gwnaethom rannu'r canfyddiadau oedd yn ymwneud ag argaeledd eu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg gyda 1st4sport ac argymhellwyd yn gryf iddynt eu bod yn gwneud cais am ein Grant Cymorth i'r Gymraeg i sicrhau bod eu cymwysterau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ymateb i'n canfyddiadau, llwyddodd 1st4sport i wneud cais llwyddiannus am y Grant Cymorth i'r Gymraeg i sicrhau bod dewis o gymwysterau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â 1st4sport i adolygu cynnydd.
3	Gwnaethom gwrdd â'r holl gyrff dyfarnu eraill sy'n cynnig cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus a'u hatgoffa bod ein Grant Cymorth i'r Gymraeg ar gael a'u hannog i wneud cais am y grant hwn i sicrhau bod cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus cyfrwng Cymraeg addas ar gael.
4	Gwnaethom rannu gyda 1st4sport y canfyddiadau sy'n ymwneud â'u proses sicrhau ansawdd mewn canolfannau cyfrwng Cymraeg. Gwnaethom argymell yn gryf iddynt: • eu bod yn recriwtio swyddog sicrhau ansawdd allanol addas sy'n siarad Cymraeg i gefnogi canolfannau cyfrwng Cymraeg; ac yn • cynnal y broses sicrhau ansawdd allanol trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir am hynny gan ganolfannau. Mewn ymateb i'n canfyddiadau, mae 1st4sport wedi ein hysbysu eu bod wedi penodi swyddog sicrhau ansawdd allanol sy'n siarad Cymraeg a'u bod yn bwriadu cynnal y broses sicrhau ansawdd trwy gyfrwng y Gymraeg, pan fydd canolfannau'n gofyn amdani. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â 1st4sport i adolygu cynnydd.

5	Gwnaethom rannu'r canfyddiadau yn ymwneud â'r galw gan ganolfannau am gymhwyster Lefel 3 addas i symud ymlaen o'u cymhwyster Lefel 2 Dysgu yn yr Awyr Agored gydag Agored Cymru, ac fe wnaethom awgrymu eu bod yn archwilio'r angen a'r galw gyda chanolfannau. Mewn ymateb i'n canfyddiadau, dywedodd Agored Cymru wrthym y byddent yn asesu lefel y galw gyda chanolfannau gyda'r bwriad o ystyried datblygu cymhwyster lefel 3 addas.
6	Gwnaethom rannu gyda Pearson y pryderon gan ysgolion uwchradd gyda chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg nad oedd eu gwasanaeth gwirio aseiniadau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent wedi cadarnhau bod y gwasanaeth hwn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer aseiniadau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi cysylltu â'r holl randdeiliaid oedd yn rhan o'r Adolygiad i'w hysbysu am y canlyniad hwn a byddwn yn defnyddio ein **bwletin** newydd am gymwysterau cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod hyn yn cael ei gyfathrebu i bob canolfan.
7	Gwnaethom rannu canfyddiadau'r Adolygiad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a dwyn eu sylw at y canfyddiadau sy'n ymwneud â chymwysterau cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'u diweddaru ynghylch y cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus newydd sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.
8	Mewn ymateb i'r canfyddiadau sy'n ymwneud â hydrinedd asesiadau mewn cymwysterau BTEC blaenorol, gwnaethom gyfarfod â Pearson a dywedwyd wrthym fod cymwysterau BTEC Lefel 3 Gwobr Genedlaethol newydd wedi'u cynllunio i gynnwys llai o unedau ac asesiadau llai cymhleth er mwyn ateb y pryderon ynghylch hydrinedd yr asesu. Fe wnaethant ddweud wrthym hefyd fod y canllawiau asesu hanfodol wedi'u datblygu i gyfyngu ar nifer yr asesiadau sy'n ofynnol ar gyfer pob uned.
Camau y byddwn yn eu cymryd	
9	Gan ddefnyddio ein **bwletin** newydd am gymwysterau cyfrwng Cymraeg, byddwn yn cyfathrebu'n effeithiol â chanolfannau am y cymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu datblygu neu sydd ar gael yn rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg.
10	Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chyrff dyfarnu i sicrhau bod y wybodaeth ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW) sy'n ymwneud ag argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn gyfredol ac yn gywir.
11	Byddwn yn rhannu tystiolaeth yr Adolygiad â Llywodraeth Cymru ac yn dwyn eu sylw at y canfyddiad sy'n ymwneud â'r galw gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith am fframweithiau prentisiaeth ymarfer corff a ffitrwydd lefel uwch.

Casgliad

Credwn y bydd y camau a gymerwyd gennym, yn ogystal â'r rhai y byddwn yn eu cymryd, yn ymdrin â'r materion a nodwyd gan yr Adolygiad, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol bosibl. Rydym yn hyderus y bydd y camau gweithredu hyn yn sicrhau bod ystod briodol o gymwysterau, gan gynnwys cymwysterau cyfrwng Cymraeg, ar gael i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

Hoffem estyn diolch diffuant i bawb a roddodd eu hamser i gymryd rhan yn yr Adolygiad ac a ddarparodd arbenigedd a mewnwelediad mor amhrisiadwy. Helpodd eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gymwysterau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus i sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn i fod yn sail i'r adroddiad. Rydym yn gwerthfawrogi pob cyfraniad a wnaed i gefnogi'r Adolygiad.

ISBN 978-1-912608-15-7